**CYSWLLT CREADIGOL**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Cymunedau
Yn gyfrifol am: AMH.
Yn adrodd i: Cynhyrchwyr Cymunedol

**Pwrpas y Swydd**
Datblygu ac arwain mentrau Cymunedau o ansawdd uchel a difyr. Cymryd rhan greadigol ac ymarferol wrth gyflwyno prosiectau, gweithdai a digwyddiadau. Bod yn eiriolwr dros y gwaith rydym yn ei wneud gyda phobl ifanc, y gymuned ehangach a'r celfyddydau ac iechyd, gan sicrhau cymaint â phosib o gydweithredu a phrosiectau a chyfrannu at y weledigaeth gyffredinol sy'n adeiladu ar ein henw da am ragoriaeth, dysgu creadigol ac ymgysylltu ystyrlon.

**Cyfrifoldebau allweddol**

**Prosiectau a gweithdai**
- Cyflwyno gweithdai, prosiectau cymunedol a / neu brosiectau ysgolion yn ôl yr angen.
- Cydweithredu â Chysylltiadau a gweithwyr llawrydd eraill wrth greu cynyrchiadau a digwyddiadau ymgysylltu creadigol
- Cyflwyno cyfleoedd ar gyfer prosiectau ysgolion, teuluoedd, aelodau hŷn ein cymuned ac ieuenctid yn ôl yr angen.
- Annog a meithrin cyfranogwyr o bob oed, gan feithrin perthynas gynnes ond broffesiynol â hwy.
- Gweithredu fel wyneb cyhoeddus rhaglen Cymunedau Theatr Clwyd i athrawon, rhieni, grwpiau cymunedol ac artistiaid ochr yn ochr â'r Cysylltiadau Creadigol eraill.
- Cynorthwyo'r tîm ehangach i gynhyrchu adnoddau digidol, gan ddarparu gwybodaeth am gynnwys gweithdai yn ôl yr angen.
- Gweithredu yn unol â pholisïau Theatr Clwyd wrth weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- O dan gyfarwyddyd y Cynhyrchydd, bod yn gyfrifol am ymrwymo gwariant o fewn cyfyngiadau pendant.

**Arall**
- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel, yn enwedig i athrawon a rhieni / gwarcheidwaid.
- Meithrin cysylltiadau o fewn byd y celfyddydau fel y prif ffynhonnell wybodaeth yn y maes gwaith hwn.
- Meithrin perthnasoedd â'r gymuned.
- Cefnogi’r Cyfarwyddwr Cymunedau i gyrraedd cymaint o rannau o'r gymuned â phosibl drwy'r celfyddydau.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, fel sy’n rhesymol, gan eich rheolwr.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad o gyflwyno gweithdai i amrywiaeth eang o oedrannau a chefndiroedd.
- Profiad sylweddol o weithio gyda'r gymuned.
- Presenoldeb egnïol ac ysbrydoledig, gyda'r gallu i arwain a chymell pobl o bob oed nad ydynt yn hyderus efallai nac yn cymryd rhan.
- Sgiliau hwyluso, gyda gallu clir i ddefnyddio dulliau gweithio methodolegol a chreadigol sy'n cael eu harwain gan ganlyniadau.
- Profiad a gwybodaeth helaeth mewn arfer celf arbenigol.
- Gwybodaeth am y gymuned sy'n lleol i Theatr Clwyd neu barodrwydd i ddysgu amdani.
- Gwybodaeth a'r gallu i ddelio'n sensitif â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a mynediad.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gan gynnwys y gallu i uniaethu ag amrywiaeth eang o bobl.
- Dyfeisgarwch a meddwl cyflym.
- Sgiliau rheoli amser cadarn.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bychan.
- Archwiliad gan y DBS.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

**Dymunol**

- Gwybodaeth am y theatr a ffurfiau celf eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol.
- Cymraeg rhugl, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Gwybodaeth weithredol am yr ysgolion lleol.
- Trwydded yrru lawn.